worldskills uk Cymru

cystadleuaethsgiliau Cymru

Arweiniad gwybodaeth

WorldSkills UK a Chystadleuaeth Sgiliau Cymru • Pwy sy'n rhedeg WorldSkills UK? • Taith y gystadleuaeth • Dewis sgwad y DU
Manteision y cystadlaethau • Llwybr i WorldSkills • Y Gystadleuaeth WorldSkills • Cysylltu â ni

Cynnwys

3 Ffactorau allweddol
4 WorldSkills UK a Cystadleuaeth Sgiliau Cymru*
5 Pwy sy'n rhedeg WorldSkills UK?
6 Taith y gystadleuaeth
8 Dewis sgwad y DU
10 Manteision y cystadlaethau
12 Llwybr at WorldSkills
14 Cystadleuaeth WorldSkills
16 Cysylltu â ni

* Mae Cystadleuaeth Sgiliau Cymru yn cael ei hariannu'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a'i gweinyddu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac mae'n gweithredu fel cystadleuaeth fwydo ar gyfer cystadlaethau WorldSkills UK.

ISBN: 978 0 7504 5091 1

Mae WorldSkills UK yn cynnal tua 70 o gystadlaethau gyda sicrwydd ansawdd. Nod y cystadlaethau hyn, sy'n cael eu cynnal yn flynyddol, yw annog pobl ifanc ac oedolion ledled Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban i ragori ym maes eu sgiliau galwedigaethol.

Cymrwch ran...

Beth yw WorldSkills UK?

WorldSkills UK yw enw set o gystadlaethau sgiliau mwyaf blaenllaw'r DU ar gyfer pobl ifanc ac oedolion. Mae 70 o gystadlaethau sgiliau yn cael eu cynnal pob blwyddyn mewn pum prif sector:

- Amgylchedd Adeiledig
- Celfyddydau Diwylliannol a Chreadigol
- Peirianneg
- Technoleg Gwybodaeth a Gweinyddu Busnes
- Gwasanaethau Personol, Cymdeithasol a Lletygarwch

Mae cystadlaethau WorldSkills UK yn cael eu cynnal yn rhanbarthol ac yn genedlaethol bob blwyddyn yn y DU gyda'r nod o helpu i godi safonau hyfforddi a pherfformiad trwy hyrwyddo sgiliau o'r radd flaenaf ac ysfa gystadleuol ryngwladol.

Gall rhai eithriadol sydd wedi cyrraedd rowndiau terfynol cenedlaethol WorldSkills UK gael eu hystyried ar gyfer cael eu cynnwys o bosibl ar restr fer ar gyfer y tîm a fydd yn cynrychioli'r DU mewn Cystadleuaeth Rhyngwladol WorldSkills.

Bydd y gystadleuaeth WorldSkills nesaf yn cael ei chynnal yn Calgary, Canada yn 2009, cyn dod i Lundain yn 2011.

Mae WorldSkills UK yn rhan annatod o'r etifeddiaeth sy'n cael ei datblygu gan UK Skills a Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel rhan o'u gwaith ar gyfer WorldSkills Llundain 2011, cystadleuaeth ryngwladol sy'n cael ei chynnal gan y DU.

Bydd WorldSkills Llundain 2011 yn digwydd yn ExCeL, Docklands o 6 – 9 Hydref 2011.

www.worldskillslondon2011.com

Cystadleuaeth Sgiliau Cymru

Mewn ymdrech i ddatblygu cystadlaethau sgiliau ymhellach yng Nghymru, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â cholegau, cynghorau sgiliau sector, darparwyr dysgu seiliedig ar waith, a chyflogwyr i drefnu a chynnal cystadlaethau sgiliau. Mae llawer o'r cystadlaethau hyn yn cael eu cynnal yn ôl meini prawf WorldSkills UK a chan dybio bod cystadleuwyr yn gwneud yn ddigon da, gallai arwain at rowndiau terfynol WorldSkills UK.

Pwy sy'n rhedeg WorldSkills UK?

Mae WorldSkills UK yn cael ei arwain gan UK Skills, sefydliad dim er elw sy'n hyrwyddo sgiliau galwedigaethol a dysgu ar gyfer gwaith trwy gystadlaethau a gwobrau.

Mae WorldSkills UK yn sicrhau ansawdd yr holl gystadlaethau sgiliau o dan y label UK Skills, sy'n gyfrifol am ddatblygu fframwaith o gystadlaethau ar bob prif lefel o gyrhaeddiad galwedigaethol.

Gall cystadlaethau unigol gael eu trefnu gan amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys colegau, Cynghorau Sgiliau Sector, UK Skills a sefydliadau'r diwydiant, ymhlith eraill.

Mae UK Skills hefyd yn gyfrifol am gyfranogiad y DU mewn cystadlaethau rhyngwladol.

Yng Nghymru, mae UK Skills yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Taith y gystadleuaeth

Ar gyfer pwy?

Mae WorldSkills UK a Cystadleuaeth Sgiliau Cymru yn agored i bobl ifanc ac oedolion sydd wedi ennill neu sy'n gweithio tuag at sgiliau galwedigaethol.

Mae gan nifer o sgiliau sawl cystadleuaeth, ac mae gan bob un ofynion mynediad penodol sy'n ymwneud ag oedran, graddau'r profiad gwaith a/neu lefel. Yn y modd hwn, mae'r cystadlaethau yn ymdrin â rolau gwaith o isweithredydd i rolau rheoli, arbenigol a phroffesiynol.

Yn unol â'r prif lwybrau i gyflogaeth, bydd y mwyafrif o gystadleuwyr yn:

- brentisiaid
- myfyrwyr coleg
- myfyrwyr prifysgol
- gweithwyr dan hyfforddiant
- gweithwyr

Taith y gystadleuaeth

Cystadlu yn erbyn y gorau yn eich rhanbarth / gwlad

↓

Gall enillwyr fynd ymlaen i gystadlu yn erbyn y gorau yn genedlaethol

↓

Rowndiau terfynol WorldSkills UK

↓

Mynediad i'r rhestr fer trwy lwybrau eraill → Gall rhai eithriadol sydd wedi cyrraedd rowndiau terfynol cenedlaethol WorldSkills UK gael eu hystyried ar gyfer rhestr fer y Gystadleuaeth WorldSkills. → Hyfforddi a Datblygu

↓

Mae cystadleuwyr sydd ar y rhestr fer yn cystadlu am le posibl yn Sgwad y DU ar gyfer Cystadleuaeth WorldSkills. → Hyfforddi a Datblygu

↓

Dewisir goreuon Sgwad y DU i gynrychioli eu gwlad fel aelodau o Dîm y DU ar gyfer Cystadleuaeth WorldSkills → Hyfforddi a Datblygu

↓

Cystadlu yng Nghystadleuaeth WorldSkills (WorldSkills Llundain 2011)

Cofiwch, nid yw pob cystadleuaeth WorldSkills UK yn arwain at WorldSkills.

Mae'r model hwn yn nodweddiadol o 'gystadleuaeth fyw'.

Sut y mae cystadlaethau WorldSkills UK yn cydweddu i Gystadleuaeth WorldSkills?

Er mwyn dewis cystadleuwyr ar gyfer WorldSkills a chystadlaethau rhyngwladol eraill, mae UK Skills yn gwahodd y cystadleuwyr cenedlaethol mwyaf addawol sy'n bodloni'r meini prawf cymhwyster i gystadlu er mwyn ymuno â rhestr fer o gystadleuwyr. Bryd hynny, bydd pobl ifanc cymwys eraill sydd wedi cael eu dewis trwy ddulliau eraill yn ymuno â nhw.

Mae'r rheiny sy'n cael eu dewis ar gyfer y rhestr fer yn cael eu hyfforddi ac yna'n cystadlu am le posibl yn Sgwad y DU. Bydd aelodau'r Sgwad yn cyflawni rhaglen hyfforddiant, cefnogaeth a gwerthusiad. Yna, maent yn cystadlu mewn digwyddiad dethol i benderfynu pwy sy'n ennill lle yn Nhîm y DU.

Mae Tîm y DU yn cael ei ddewis wedyn ac yn parhau â'r rhaglen o hyfforddiant yn y cyfnod sy'n arwain at Gystadleuaeth WorldSkills. Cyhoeddir y tîm terfynol tua deufis cyn y Gystadleuaeth WorldSkills berthnasol. Mae Tîm y DU a Sgwad y DU yn cael eu cefnogi gan Edge.

Sylwer: UK Skills sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r tîm, aelodau'r tîm a pherfformiad ar unrhyw adeg yn ystod taith y gystadleuaeth a'r broses ddewis.

Cystadlaethau sy'n gweithredu trwy'r DU

Gan ddibynnu ar y math o gystadleuaeth a nifer y cystadleuwyr sy'n cofrestru, bydd naill ai rowndiau'n cael eu cynnal ym mhob cystadleuaeth a fydd yn arwain at y gystadleuaeth genedlaethol, neu gystadleuaeth derfynol y DU yn unig.

Anogir darparwyr hyfforddiant, colegau, prifysgolion a chyflogwyr i gynnal rowndiau mewnol a lleol i nodi eu perfformwyr cryfaf er mwyn eu cofrestru ar gyfer un o'r rowndiau neu rownd derfynol y DU.

Bydd arweinwyr sectorau a hyrwyddwyr WorldSkills UK yn annog gweithgarwch y gystadleuaeth ledled y DU er mwyn galluogi nifer o bobl ifanc ac oedolion i brofi eu hunain yn erbyn y gorau a dangos yr hyn y gallant ei wneud.

Manteision y cystadlaethau

Rydym ni'n credu bod cystadlaethau sgiliau yn cynnig manteision sylweddol i bawb sy'n cofrestru ac sy'n eu cefnogi.

Ar gyfer cystadleuwyr a'u hyfforddwyr / tiwtoriaid:

Cystadleuwyr a'u hyfforddwyr a thiwtoriaid sy'n profi effaith gadarnhaol fwyaf uniongyrchol y cystadlaethau:

- Mae ganddynt nod gwerth chweil cyffredin sy'n mynd â nhw y tu hwnt i ddisgwyliadau arferol rhaglenni addysg a hyfforddi
- Maent yn gallu rhannu'r cariad tuag at feistrolaeth yn eu sgil hwythau
- Maent yn cael y profiad o gyffro cystadlu gyda'r uchafbwyntiau a'r iselfannau
- Gyda'i gilydd, maent yn mynd i mewn i'w sgil ac ennill neu ailddarganfod dealltwriaeth ddyfnach o ansawdd nag y byddent fel arfer yn ei rannu
- Maent yn tyfu o ran parch y naill i'r llall, trwy ddilyn diben gwerthfawr wedi'i rhannu

Ar gyfer y cystadleuydd, mae'r posibilrwydd hefyd o gael cydnabyddiaeth am eu sgiliau eithriadol, tra ar gyfer yr hyfforddwr neu diwtor, mae balchder proffesiynol a thystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus.

Ar gyfer darparwyr hyfforddiant:

Mae'r manteision yn fawr ar gyfer colegau, prifysgolion a darparwyr dysgu seiliedig ar waith hefyd. Mae cystadlaethau yn:

- chwistrellu dynamiaeth a chyffro i weithgareddau hyfforddi
- sbarduno gweithwyr dan hyfforddiant a phrentisiaid i ddangos yr hyn allant ei wneud
- rhoi rhaglenni hyfforddi ar brawf a phrofi ansawdd
- dangos hyder yn ansawdd y prosesau a chynnyrch

- cynhyrchu deunyddiau ar gyfer hyfforddi, asesu a thystiolaeth o berfformiad

Mae adroddiadau arolygu Ofsted yn aml yn nodi ymglymiad â chystadlaethau sgiliau fel tystiolaeth o ymdrechu am ragoriaeth.

Gall ymglymiad mewn cystadlaethau helpu i godi proffil pob darparwr hyfforddiant. P'un ai eich bod chi'n cynnal, noddi neu yn wir fod gennych gystadleuydd buddugol ar lefel rhanbarthol, cenedlaethol neu ryngwladol, mae cymryd rhan mewn cystadlaethau yn ffordd dda i gysylltu sefydliad addysgol â rhagoriaeth a llwyddiant.

Ar gyfer cyflogwyr:

Ar gyfer cyflogwyr, gall ymglymiad eu gweithlu mewn cystadlaethau sgiliau:

- feithrin parch y naill i'r llall yn y swydd a'r cwmni
- ehangu'r dewisiadau ar gyfer tyfiant a dewis o ran cynnyrch, trwy;
- wahaniaethu'r busnes oddi wrth ei gystadleuwyr
- arddangos cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol
- datblygu a chadw staff
- gwirio perfformiad a gosod meincnodau
- chwistrellu uchelgais a dyhead
- hyrwyddo rhagoriaeth mewn sgiliau
- cynnig cyfleoedd cysylltiadau cyhoeddus

"Mae cystadlu mewn cystadlaethau sgiliau wedi rhoi hwb i fy hyder. Mae wedi dangos i fi bod pobl yn cymryd yr hyn rydw i'n ei wneud o ddifrif. Mae cystadlu wedi bod yn ffordd ardderchog i gyfnewid profiadau ac yn ffordd o weithio gyda phobl eraill sydd yn yr un proffesiwn â fi."

Julie Doig
Enillydd WorldSkills UK
Gwasanaethau Bwytai

WorldSkills

- Amgylchedd Adeiledig
- Celfyddydau Diwylliannol a Chreadigol
- Peirianneg
- Technoleg Gwybodaeth a Gweinyddu Busnes
- Gwasanaethau Personol, Cymdeithasol a Lletygarwch

Nid yw pob cystadleuaeth WorldSkills UK yn arwain at Gystadleuaeth WorldSkills Rhyngwladol. Gweler isod restr o gystadlaethau sy'n arwain at WorldSkills.

Amgylchedd Adeiledig

- Gosod brics
- Gwneud Dodrefn
- Gwaith Saer
- Gosodiad Trydanol
- Gwaith Asiedydd
- Garddlunio
- Paentio ac Addurno
- Plastro
- Plymio
- Rheweiddio
- Gwaith saer maen
- Teilsio wal a llawr

Celfyddydau Diwylliannol a Chreadigol

- Gwneud Gemwaith Cain
- Blodeuwriaeth
- Dylunio Graffeg
- Dylunio Ffasiwn

Peirianneg

- Peirianneg Awyrennol
- Atgyweirio Ceir
- Technoleg Foduron
- Peintio Ceir
- Melino dan Reolaeth Cyfrifiadur
- Thurnio dan Reolaeth Cyfrifiadur
- Her Beirianneg
- Electroneg Ddiwydiannol
- Peirianneg Fecanyddol: CADD
- Mecatroneg
- Roboteg Symudol
- Weldio

Technoleg Gwybodaeth a Gweinyddu Busnes

- Rhwydweithio TGCh: Microsoft
- Rhwydweithio TGCh: Cisco
- Cymwysiadau Meddalweddol Swyddfa TG
- Dylunio Gwefannau

Gwasanaethau Personol, Cymdeithasol a Lletygarwch

- Pobi
- Therapi Harddwch
- Melysion
- Coginio
- Trin Gwallt
- Gwasanaeth Bwytai

Y Gystadleuaeth WorldSkills

Y Gystadleuaeth WorldSkills yw'r gystadleuaeth sgiliau rhyngwladol fwyaf yn y byd. Mae tua 50 o wledydd sy'n aelodau yn anfon pobl ifanc tra hyfforddedig i gystadlu mewn tua 40 o sgiliau galwedigaethol gwahanol, gan gynnwys Therapi Harddwch, Dylunio Gwefannau, a Melino a Thurnio dan Reolaeth Cyfrifiadur.

Mae'r Gystadleuaeth WorldSkills yn digwydd bob dwy flynedd ac mae graddfa'r digwyddiad yn ddihafal, gyda thros 800 o gystadleuwyr yn cymryd rhan. Mae pobl ifanc yn cael eu profi yn erbyn safonau rhyngwladol caled dros y digwyddiad pedwar diwrnod, tra bod eu cynnydd yn cael ei wylio gan gannoedd ar filoedd o ymwelwyr.

WorldSkills Calgary 2009

Ffeithiau cyflym:

- 6 diwrnod (gan gynnwys y seremoni agoriadol a'r seremoni derfynol)
- 40 o gategorïau sgiliau
- 49 o wledydd sy'n aelodau
- 900 o gystadleuwyr
- 3,000 o wirfoddolwyr
- 5,000 o arbenigwyr, cynrychiolwyr a beirniaid rhyngwladol
- 30,000 o nosweithiau mewn ystafelloedd mewn gwestai
- 150,000 o gynulleidfa'n fyfyrwyr a'r cyhoedd
- 800,000 troedfedd sgwâr o le cystadlu

WorldSkills Llundain 2011

Ffeithiau cyflym:

- 250,000 o ymwelwyr
- 1,200 o gystadleuwyr
- 60 o wledydd
- 40 o sgiliau

Am fwy o wybodaeth ar WorldSkills Llundain 2011, ewch i www.worldskillslondon2011.com

Meini prawf cymhwyster WorldSkills Llundain 2011:

Mae'r rheol ar gyfer Cystadlaethau WorldSkills yn nodi bod gofyn i gystadleuwyr fod yn iau na 23 mlwydd oed adeg blwyddyn y gystadleuaeth, gydag eithriad ar hyn o bryd ar gyfer cystadlaethau Mecantroneg a Her Peirianneg, lle gall cystadleuwyr fod hyd at dair blynedd yn hŷn.

Golyga hyn, ar gyfer WorldSkills Llundain 2011, bod yn rhaid bod cystadleuwyr wedi cael eu geni ar neu ar ôl 1 Ionawr 1989, ac ar gyfer Mecatroneg a Her Peirianneg, bod y cystadleuwyr wedi cael eu geni ar neu ar ôl 1 Ionawr 1986.

Cysylltu â ni...

Ar gyfer pob mater sy'n ymwneud â WorldSkills, cysylltwch â Thîm WorldSkills UK ar 0800 612 0742 neu ewch i **www.WorldSkillsUK.org/Wales** neu **www.WorldSkillsUK.org**

Ar gyfer pobl gweithgarwch WorldSkills yng Nghymru, gan gynnwys cystadlaethau sgiliau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ewch i **www.WorldSkillsUK.org/Wales** neu anfonwch neges e-bost at **WorldSkills@Wales.gsi.gov.uk**

Ar gyfer pob mater sy'n ymwneud â WorldSkills UK, cysylltwch â thîm WorldSkills UK ar 0800 612 0742, neu anfonwch neges e-bost at **WorldSkillsUK@ukskills.org.uk** neu ewch i **www.WorldSkillsUK.org**

Sut i gofrestru a chymryd rhan

Sylwer, y dyddiad cau ar gyfer y rhan fwyaf o gystadlaethau yw **dydd Iau 9 Ebrill 2009**. Fodd bynnag, mae rhai dyddiadau cau cystadlaethau yn amrywio, felly gwiriwch dudalennau gwe'r gystadleuaeth yn ofalus.

Os ydych chi'n byw yng Nghymru neu'n dymuno cofrestru ar gyfer cystadleuaeth yng Nghymru, ewch i **www.WorldSkillsUK.org/Wales** i gael gweld a oes cystadleuaeth sgiliau yn digwydd mewn ardal gyfagos i chi. Os nad oes un yn bodoli ar hyn o bryd, byddwch yn cael eich cyfeirio at safle WorldSkills UK, lle'r ydych chi'n rhydd i bori a chofrestru ar gyfer cystadleuaeth o'ch dewis chi.

Beth bynnag yw'r gystadleuaeth neu leoliad, os hoffech chi gymryd rhan eich hun, gweithiwr, neu gyd-weithiwr, **mae'n rhaid** i chi gofrestru. Darllenwch dudalennau'r gystadleuaeth ar-lein am fanylion.

Os ydych chi'n cael anhawster wrth gofrestru neu'n cael anhawster mynd i mewn i'r wefan, cysylltwch â thîm WorldSkills UK ar **0800 612 0742**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a UK Skills yn ymrwymedig i weithio gyda'r amrywiaeth mwyaf eang o bobl mewn ffordd sy'n rhydd o wahaniaethu a rhagfarn, ac sy'n annog a helpu pawb i gyflawni eu llawn botensial.

dylunio petergill.com 170880309